

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Adran Achosion Brys, Ysbyty

Athrofaol y Faenor, Bwrdd Iechyd

Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 02 - 04 Hydref 2024

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	10
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	16
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	23
4.	Y camau nesaf .....	28
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	29
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	30
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	47

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 02 a 04 Hydref 2024. Adolygwyd wardiau canlynol yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Adran Achosion Brys - yn darparu gwasanaethau meddygaeth brys i oedolion a phediatreg
- Anafiadau Difrifol - 16 o welyau
- Adfywio - 8 gwely
- Yr Adran Achosion Brys Pediatrig - 16 o welyau
- Yr Uned Asesu Meddygol - 7 gwely ar gyfer ynysu cleifion â heintiau anadlol

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o uwch-arolygwyr gofal iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 11 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 61 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn gweithio'n galed o dan amodau heriol iawn. Gwelsom fod y staff yn trin cleifion mewn modd cwrtais, proffesiynol ac urddasol. Fodd bynnag, roedd nifer y cleifion a oedd yn dod i'r adran ac aciwtedd y cleifion hynny, a'r problemau o ran llif cleifion i wardiau yn yr ysbyty, yn aml yn llesteirio eu hymdrechion.

Roedd yr ystafell aros ac ardal desg y dderbynfa yn orlawn, ac roedd hyn yn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion wrth rannu a thrafod gwybodaeth gyfrinachol. Hefyd, nid oedd yr ardal hon yn cael ei goruchwyllo'n dda gan y staff, ac nid oedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau. Gwelsom nad oedd pob claf yn yr ardal aros yn cael analgesia mewn modd amserol lle bo angen.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw, a'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, eu bod yn anfodlon iawn ar amseroedd aros. Dim ond hanner y cleifion hynny oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu hasesu o fewn 30 munud i gyrraedd. Roedd statws uwchgyfeirio uchel wedi'i bennu yn yr adran, ac roedd cleifion yn wynebu amseroedd aros hirach oherwydd nifer y cleifion yn yr adran. Roedd rheolwyr y safle a'r nyrs â chyfrifoldeb yn rheoli capasiti, ond roedd llif cleifion yn heriol oherwydd diffyg argaeledd gwelyau ar wardiau. Roedd y broblem hon ar draws y system gyfan yn effeithio ar y broses ryddhau, ac roedd rhwng 350 a 400 o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o ysbytai ledled y bwrdd iechyd.

Er bod y problemau uchod yn dal i effeithio ar ddiogelwch, profiad ac urddas cleifion, bu rhywfaint o welliant ers ein harolygiad blaenorol yn 2022. Mae hyn yn cynnwys mentrau a roddwyd ar waith i wella amserodd brysbennu cleifion. Roedd gwaith adeiladu hefyd yn mynd rhagddo i greu ardal aros estynedig, ac roedd disgwyl i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2025. Bydd hyn yn darparu mwy o seddau i gleifion sy'n gallu cerdded, ac mae'r staff yn hyderus y bydd hyn yn helpu i wella profiad cleifion ac yn golygu bod modd gweld y rhai sy'n aros yn well.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd heriau sylweddol yn bodoli mewn perthynas â llif cleifion drwy'r adran. Ar y cyfan, roedd hyn i'w briodoli o oedi wrth ryddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty. Roedd hyn yn golygu bod yr adran yn orlawn, a oedd yn effeithio ar ofal

cleifion. Dylai hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun pwysau cenedlaethol ar adrannau achosion brys ac nid yw'n unigryw i Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Yn gyffredinol, nid oedd cydymffurfiaeth ddigonol bob amser mewn perthynas â rheoli risg. Gwelsom nifer o enghreifftiau o hyn, ac roedd rhai meysydd yr un peth â'r hyn a welwyd yn ystod ein harolygiad yn 2022. O ganlyniad, aethom i'r afael â rhai o'r materion hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd asesiadau risg bob amser wedi'u cwblhau ar gyfer cleifion lle bo hynny'n berthnasol, yn enwedig ar gyfer pobl a oedd yn wynebu risg o gwmpo. Hefyd, gwelsom fod eistedd am gyfnodau hir ar gadeiriau caled yn yr ystafell aros yn peri risg o friwiau pwysu i rai cleifion, ond nid oedd unrhyw fesurau lliniaru ar waith er mwyn helpu i atal hyn. Er ei bod yn ymddangos bod cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael asesiadau amserol am friwiau pwysu, nid oedd asesiadau risg yn cael eu cynnal na'u cwblhau mewn modd amserol o fewn yr adran.

Nid oedd y broses ar gyfer gwirio cyfarpar adfywio yn ddigon cadarn ym mhob rhan o'r adran, a gwelsom fod cofnodion i ddangos a oedd gwiriadau diogelwch o'r cyfarpar wedi'u cynnal, yn anghyflawn. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiad hwn yn unigryw i Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Rodd yn gadarnhaol nodi bod prosesau priodol ar waith i atal a rheoli hintiau, ond ar sawl achlysur, gwelsom staff yn gadael ardal â haint heb dynnu cyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn peri risg o gario'r haint i rannau eraill o'r adran.

Roedd y broses ddiogelu a oedd ar waith yn cael ei hategu gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, a dangosodd y staff wybodaeth briodol am ddiogelu plant ac oedolion, y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid, a galluedd meddyliol.

Gwelsom nad oedd y prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu polisi rheoli meddyginiaethau y bwrdd iechyd mewn modd amserol. At hynny, nid oedd y staff bob amser wedi cwblhau gwiriadau dyddiol o'r stoc cyffuriau a reolir yn unol â'r polisi.

Ers ein harolygiad diwethaf, roedd mentrau wedi'u rhoi ar waith er mwyn helpu i wella'r broses o frysbennu cleifion, gan gynnwys system eFrysbennu newydd i gleifion ei defnyddio, ac roedd pedair gorsaf ddigidol yn yr ardal aros at y diben hwnnw. At hynny, roedd lefel y cyfathrebu rhwng staff yr Adran Achosion Brys yn briodol, ac roedd hyn wedi gwella ers canfyddiadau'r arolygiad blaenorol.

Ar y cyfan, roedd y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a oedd ar gael, fel cyfarpar meddygol, cyflenwadau, ac amser staff, er budd pennaf y cleifion, ond

roedd y gofynion ar yr uned a'r ffaith bod yr adran yn orlawn yn golygu bod hyn yn anodd ei gynnal.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd asesiadau risg ar gyfer cwympiadau na sgoriau'r raddfa Fflebitis Trwytho Gweledol (VIP) yn cael eu cwblhau mewn modd amserol
- Nid oedd y trefniadau ar gyfer rheoli a rhoi meddyginiaethau yn ddigon cadarn i gynnal diogelwch cleifion
- Nid oedd gwiriadau o gyfarpar adfywio yn cael eu cwblhau'n gyson
- Ni chawsom sicrwydd bod pob agwedd ar ofal yn cael ei chyflawni mewn modd diogel ac effeithiol a gwelsom nad oedd y staff wedi gweithredu ar ganlyniadau ymchwiliadau
- Gwelwyd cyfarpar meddygol untro yr oedd ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cynnal lefelau staff nyrsio yn llai heriol na'r hyn a welwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol, a bod llai o ddibyniaeth o lawer ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu absenoldebau. Dywedwyd wrthym fod cyfraddau cadw staff wedi gwella a bod ffocws ar sicrhau bod staff newydd yn cael eu cefnogi'n briodol. Er bod yr adran yn brysur iawn drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod y staff yn ymdopi'n dda â'r pwysau a'u bod yn rhoi sylw i anghenion y cleifion ac yn ymateb iddynt ar y cyfan.

Roedd rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, wedi'i chefnogi gan nyrs datblygu ymarfer. Roedd prosesau ar waith i nodi anghenion hyfforddiant staff a helpu i nodi meysydd i'w gwella. Yn ogystal â hynny, roedd llwybr sefydlu staff a phroses Taith Ragoriaeth ar waith, y mae staff newydd yn eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn ennill yr holl gymwyseddu sydd eu hangen i weithio yn yr Adran Achosion Brys. At hynny, roedd cydymffurfiaeth dda o fwy na 85% mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Roedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, ac roedd hon yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Cawsom wybodaeth am gwynion cyfredol a chamau a gymerwyd i'w datrys.

Mae'r gwasanaeth ar Lefel 3 o [drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru](#) ar hyn o bryd, ac esboniodd y staff eu ffocws ar wella'r amseroedd aros o 12 awr yn yr adran, ac oriau a gollwyd ambiwlansys am eu bod wedi'u dal y tu allan i'r Adran



Achosion Brys. At hynny, disgrifiodd y staff y cyfarfodydd wythnosol a gynhelir gan y tîm gweithredol i drafod data ar amseroedd aros cleifion a thargedau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mynd i'r afael â llif cleifion drwy'r adran a'r ysbyty yn gyffredinol.

Gwelsom enghreifftiau da o waith partneriaeth da rhwng gwahanol ddisgyblaethau staff, a phroffesiynau o adrannau eraill, gan gynnwys fferylliaeth, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Gwnaethom ymgysylltu â chleifion drwy gydol ein harolygiad, a chawsom hefyd 11 o ymatebion i'n harolwg i gleifion. Roedd yr ymatebion yn gymysg ac roedd yr ymatebion mwyaf negyddol yn ymwneud ag amseroedd aros a'r ardaloedd aros. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'.

Cawsom sylwadau cadarnhaol am y gwasanaeth, a sylwadau eraill ar sut y gellid ei wella. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

*“Gwasanaeth a gofal gwych gan y tîm.”*

*“Mae'r gwasanaeth rwyf wedi ei gael yn ystod fy amser yma wedi gwneud argraff fawr arnaf, gan fy mod wedi clywed rhai straeon, ond mae'r staff yma heddiw yn dda iawn.”*

*“Roedd yn amlwg nad oedd yr ardal aros yn ddigonol i'r niferoedd yno. Ar un adeg, rwy'n siŵr bod mwy o bobl yno na'r hyn sy'n ddiogel o safbwynt rheoliadau tân, a dim ond un allanfa oedd yno, a oedd hefyd yn cael ei defnyddio fel mynedfa. Fel clinigydd sydd wedi ymddeol, rwy'n deall bod y drefn y mae angen i gleifion gael eu gweld yn dibynnu ar ddifrifoldeb eu cyflwr pan fyddant yn cyrraedd. Nid oedd cloc yn yr ystafell aros, ac nid oedd unrhyw system i weithio allan pryd y gallwn ddisgwyl cael fy ngweld. Roedd hyn yn eithaf rhwystredig i mi a'r bobl eraill a oedd yn aros. Mae gofal iechyd yn gymhleth, a bydd felly bob amser, ac roedd yn amlwg bod llawer o'r rhai a oedd yno yn awyddus i gael rhyw fath o system weledol i ddangos iddynt pryd y gallent ddisgwyl cael eu gweld. Rwy'n gwybod bod hynny'n gofyn cryn dipyn gan fod y drefn y bydd cleifion yn cael eu gweld yn gallu newid yn dibynnu ar y cleifion sy'n cyrraedd yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod unrhyw gyfnod aros, ond byddai'n well cael rhyw fath o syniad na dim byd o gwbl. Ar wahân i hynny, roedd y prosesau clinigol, o frysbenneu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin, i'w rhyddhau, o'r radd flaenaf ac mae'r holl staff yn gaffaeliad i GIG Cymru. Roedd y staff yn arbennig, er gwaethaf y ffaith eu bod yn delio â niferoedd llethol o gleifion.”*

## Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

### Hybu iechyd

Roedd gwybodaeth yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn gwahanol rannau o'r adran, ac roedd llawer ohoni yn ddwyieithog. Roedd gwybodaeth am sepsis hefyd wedi'i harddangos drwy gydol yr adran.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, a'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn cynnig cyngor iddynt ar sut i wella a chynnal eu hiechyd, ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch, ac yn cynnal eu cyfrinachedd cymaint â phosibl mewn amgylchedd gorlawn. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ryngweithio da â'r staff, ac roeddent yn fodlon ar eu gofal ar y cyfan.

Er bod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion a oedd yn aros am ragor o asesiadau a thriniaeth, roedd yn amlwg ei bod yn fwy anodd gwneud hyn ar gyfer y cleifion a oedd yn aros ar gadeiriau yn ardal y coridor. Fodd bynnag, roedd y staff yn ystyriol o'r angen i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion hyn, ac roeddent yn ceisio eu symud i ardaloedd mwy priodol o'r adran pan oedd angen rhoi gofal personol iddynt.

Roedd yr ystafell aros ac ardal desg y dderbynfa yn orlawn, ac roedd hyn yn amharu ar breifatrwydd ac urddas cleifion wrth rannu a thrafod gwybodaeth gyfrinachol. Yn yr adran anafiadau difrifol, mae cadeiriau i gleifion sy'n ddigon da i eistedd wedi'u cyflwyno, ac o ganlyniad, mae'r cleifion yn eistedd yn agosach at ei gilydd sy'n effeithio ar eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd y cadeiriau hyn wedi cael eu cyflwyno oherwydd prinder lle o ganlyniad i orlenwi a diffyg llif cleifion. Ni welsom unrhyw ardal orlawn yn yr adran bediatrig.

Roedd gwaith adeiladu yn mynd rhagddo i greu ardal aros estynedig, a dywedwyd wrthym fod disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2025. Bydd hyn yn darparu mwy o seddau i gleifion a all gerdded, gan helpu i wella eu profiad, a bydd hefyd yn galluogi'r staff i weld y rhai sy'n aros yn well. Dywedwyd wrthym y bydd yr ystafell aros bresennol yn cael ei defnyddio fel parth asesu a thrin yn gyflym, gyda'r nod o gynyddu llif cleifion drwy'r adran.

Gwelsom fod ardaloedd o'r adran wedi'u haddurno'n dda ac yn addas at y diben a fwriadwyd, er enghraifft y gwaith celf yn yr ardal bediatrig a'r décor yn yr ystafell i berthnasau.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn yr Adran Achosion Brys Pediatrig wedi gweithio'n agos gydag elusen Make-A-Wish, a bod arian elusennol wedi'i ddefnyddio i adeiladu ystafell brofedigaeth a rennir â'r Adran Achosion Brys Oedolion, sydd hefyd yn cynnwys ystafell weld, lle y gall teuluoedd weld eu hanwlyd yn dilyn marwolaeth mewn amgylchedd mwy priodol.

Mae staff yr Adran Achosion Brys Pediatrig hefyd wedi cydgysylltu ag elusen 4Louis, sydd wedi rhoi pecynnau profedigaeth ar gyfer rhieni a brodyr a chwiorydd, i'w ddefnyddio pan fydd plentyn wedi marw. Maent hefyd wedi datblygu pecynnau comesgor ar gyfer mamau a'u teuluoedd, gan gynnwys un penodol i Fwslimiaid. Cafodd hyn ei roi ar waith yn dilyn adborth gan gleifion, ac mae'n dangos bod yr adran yn dysgu a gwella oddi wrth gleifion.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cofnodion y clinigwyr wedi'u nodi ar sail amlddisgyblaethol. Yn y cofnodion, gwelsom enghreifftiau lle roedd angen gwella'r broses o gynllunio a darparu gofal. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Yn ystod ein harolygiad, mynegodd y cleifion a'r rhai a ymatebodd i'n harolwg anfodddhad sylweddol ag amseroedd aros. Dim ond hanner y cleifion hynny oedd yn teimlo eu bod wedi cael eu hasesu o fewn 30 munud i gyrraedd, ac roedd llawer wedi cael eu trin o fewn pedair awr. Fodd bynnag, dywedodd rhai eu bod wedi aros mwy na 12 awr, a oedd wedi cael effaith negyddol ar eu profiad a'u diogelwch.

Dangosodd nifer o sylwadau rwystredigaeth o ran amseroedd aros, gan gynnwys:

“Treuliodd fy mam 12 awr yn eistedd ar gadair, heb unrhyw arsylwadau yn ystod y cyfnod hwnnw, ac roeddem yn meddwl ei bod wedi cael trawiad ar y galon. Ni chafodd gynnig dim i'w fwyta na'i yfed yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni welodd yr un aelod o'r staff. Pan gafodd ei gweld yn y pen draw, cafodd ei symud i gadair arall, lle treuliodd 12 awr arall. Roedd fel ffair yn y Faenor. Mae arnaf gywilydd gweithio i'r GIG.”

“Y pethau gwael oedd yr amser aros am wely.”

“Doedd dim lle i eistedd na sefyll, ac roedd cleifion ym mhob un o'r ambiwlansys y tu allan, felly er fy mod yn meddwl fy mod wedi cael trawiad ar y galon, penderfynais adael ar ôl 12 awr a gyrru i ysbyty gwahanol. Fy mhenderfyniad i oedd hynny, oherwydd pe bawn i'n marw, doeddwn i ddim am farw yno. Mae Cymru fel pe bai'n mynd am yn ôl.”

Pan wnaethom gyrraedd gyda'r nos, roedd statws uwchgyfeirio uchel yn yr adran, gan olygu ei bod yn orlawn a bod lefel sylweddol o bwysau gweithredol. Roedd hyn yn golygu bod yr ardaloedd aros yn orlawn a bod amseroedd aros hwy oherwydd y nifer uchel o gleifion. Roedd rheolwyr y safle a'r nyrs â chyfrifoldeb yn rheoli capasiti, ond roedd llif cleifion yn heriol oherwydd diffyg argaeledd gwelyau ar wardiau. Roedd y broblem hon ar draws y system gyfan yn effeithio ar y broses ryddhau, ac roedd rhwng 350 a 400 o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o ysbytai ledled y bwrdd iechyd.

Roedd y cleifion yn yr ardal anafiadau difrifol a'r ardal i gleifion sy'n gallu cerdded wedi bod yn aros am amser hir. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi bod yn eistedd ar gadeiriau am tua 18 awr yn aros i gael eu derbyn i wely ar ward. Roedd yn siomedig gweld bod rhai o'r cleifion hyn yn gleifion oedrannus bregus y mae angen help arnynt o ran eu gofal personol. Pan oedd angen, roeddent yn cael eu symud i giwbicl dynodedig i gael gofal personol.

Roedd yr ardal aros yn anhrefnus, yn anniben ac yn fudr, a oedd yn effeithio ar brofiad cleifion ymhellach. Nid oedd sgrin y bwriadwyd iddo arddangos amseroedd aros yn gweithio bob amser, gan olygu bod y cleifion yn ansicr faint o amser y byddai'n rhaid iddynt aros i gael eu gweld. Roedd yr adran yn orlawn, gyda chleifion yn sefyll a rhai yn aros y tu allan. Dywedodd un claf ei fod wedi bod yn aros ers wyth o'r gloch y bore hwnnw.

Roedd heriau sylweddol o ran llif cleifion yn bodoli o hyd, yn aml y tu hwnt i reolaeth staff yr Adran Achosion Brys, yn bennaf oherwydd oedi wrth ryddhau cleifion o ardaloedd eraill o'r ysbyty. Roedd yr oedi hyn yn deillio o'r ffaith bod cleifion yn aros am ragor o gymorth, fel adsefydlu, pecynnau gofal, neu leoliadau mewn cyfleusterau eraill. Roedd rhai cleifion yn treulio mwy na 48 awr yn yr adran, ac nid oes gan yr adran yr adnoddau i'w cadw am gyfnodau mor hir.

Er bod y problemau uchod yn dal i effeithio ar ddiogelwch, profiad ac urddas cleifion, bu rhywfaint o welliant ers ein harolygiad blaenorol yn 2022. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i fod yn ymwybodol o'r heriau hyn ac yn parhau i ystyried mentrau gwahanol i wella llif yn yr ysbyty.

Nid oedd pob un o'r cleifion yn yr ardal aros wedi cael analgesia mewn modd amserol ac nid oedd sgoriau poen wedi'u cynnal ar gyfer y rheini a oedd wedi bod yn aros ers amser hir ac nid oeddent wedi cael dos arall o analgesia fel mater o drefn. Felly, ni chawsom sicrwydd bod pob claf yn cael asesiad poen ac analgesia mewn modd amserol, a rhaid i'r ymdrechion i wella llif cleifion barhau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i wella llif cleifion drwy'r adran ac ym mhob rhan o'r ysbyty ehangach.**

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu proses lle mae'r cleifion yn yr ystafell aros yn cael asesiad poen ac analgesia os oes angen.**

Rhodddwyd menter i wella amseroedd targed brysbennu ar waith. Roedd cleifion â chyflyrau risg uchel lle mae amser yn y fantol yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol ac yn cael eu symud o'r ardaloedd mwy priodol yn yr Adran Achosion Brys am driniaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod cydberthnasau gwaith da rhwng staff yr Adran Achosion Brys a staff ambiwlansys wrth reoli gofal cleifion. Er mwyn brysbennu cleifion newydd mewn modd amserol a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros, defnyddir mwy o adnoddau staff i leihau amseroedd aros i gyrraedd y targed o 15 munud. Mae'r fenter hon, ar adegau, wedi llwyddo i leihau amseroedd brysbennu o 30 munud i 17 munud. Mae'r staff yn ceisio lleihau amseroedd brysbennu ymhellach i gyrraedd y targed o 15 munud.

Roedd cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys yn cael gofal da, ac roedd staff yr Adran Achosion Brys yn rhoi gofal yn yr ambiwlans pan fo angen. Roedd cleifion hefyd yn cael eu trosglwyddo o'r ambiwlansys i'r adran er mwyn dechrau eu triniaeth ac yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r ambiwlans wedi hynny. Fodd bynnag, dywedodd criwiau'r ambiwlansys wrthym fod mygdarth cerbydau diesel a chadw cleifion yn gynnes am gyfnodau hir yn broblem.

Roedd amseroedd trosglwyddo a gallu criwiau ambiwlansys i ymateb i gleifion yn y gymuned yn cael effaith negyddol ar nifer y cleifion a oedd mynd i ddrws ffrynt yr Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn golygu bod llawer o gleifion clinigol wael yn gwneud eu ffordd eu hunain i'r adran.

Wrth adeiladu Ysbyty'r Faenor, ni chafodd yr Adran Achosion Brys ei dylunio ar gyfer cleifion sy'n cerdded i mewn, ac mae hynny wedi arwain at ardaloedd aros annigonol a phroblemau o ran monitro cleifion. Roedd camera teledu cylch cyfyng (CCTV) ar waith ac roedd y sgrin fonitro yn yr ardal i gleifion sy'n gallu cerdded. Fodd bynnag, roedd hi'n anodd pennu cyflwr y claf o'r monitor, gan olygu bod risg na fyddai staff clinigol yn gweld pe bai cyflwr rhywun yn gwaethygu.

Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu proses gadarn lle mae cleifion yn yr ardal aros yn cael eu monitro'n rheolaidd, a lle y dylid cynnal asesiadau priodol o risgiau cleifion y credir eu bod yn fwy tebygol o gwmpo neu ddatblygu briwiau pwyso.

Dywedwyd wrthym fod cleifion a atgyfeirir gan feddygon teulu yn cael eu derbyn yn uniongyrchol i wasanaeth arbenigol, fel yr Uned Asesu Meddygol neu'r Uned Asesu Llawfeddygol. Mae hyn yn lleihau'r baich ar staff yr Adran Achosion Brys ac yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau o ran gorlenwi a llif cleifion drwy'r adran.

Mae'r Adran Achosion Brys yn treialu system e-frysbennu ac mae sgriniau hunanfrysbennu wedi'u lleoli yn y dderbynfa, ond nodwyd pryderon o ran preifatrwydd a'r risg y gallai pobl eraill gerllaw weld y sgrin. Esboniodd y staff fod sgrin breifatrwydd ar waith er mwyn atal pobl eraill rhag darllen y sgrin.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Ni welsom y staff yn cyfathrebu yn Gymraeg; fodd bynnag, gwelsom fod y staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith i ddangos hynny. Dywedwyd wrthym fod llinell iaith hefyd yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau cyfieithu mewn ieithoedd eraill pan fo angen. Gallai'r staff yn yr Adran Achosion Brys hefyd ddarparu gwybodaeth i gleifion mewn fformat hawdd ei ddeall, ffont mawr, ac yn Gymraeg.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein harolwg staff yn teimlo eu bod bob amser yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud i gleifion ac yn ateb eu cwestiynau.

Er mwyn helpu cleifion i ganfod eu ffordd drwy'r adran, roedd diagram llif wedi'i harddangos yn yr ardal aros.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Gwelsom fod y staff yn ceisio rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r bobl, ni waeth beth fo'u rhywedd neu gefndir. Mae hyn yn cyd-fynd â dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gofal o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar y claf mewn adrannau achosion brys.

Mae datganiad ansawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer adrannau achosion brys yn rhoi pwyslais ar ddarparu'r gofal cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, ac roedd y staff yn ceisio gwneud hyn hyd eithaf eu gallu, mewn amgylchedd dan bwysau.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Yn gyffredinol, nid oedd cydymffurfiaeth ddigonol mewn perthynas â rheoli risg. Gwelsom nifer o enghreifftiau o hyn, sydd wedi'u nodi yn yr adran hon o'r adroddiad.

Roedd eistedd am gyfnodau hir ar gadeiriau caled yn yr ystafell aros yn peri risg o friwiau pwyso i gleifion eiddil neu oedrannus, ond nid oedd unrhyw fesurau lliniaru ar waith er mwyn helpu i atal hyn.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd asesiadau risg bob amser wedi cael eu cwblhau ar gyfer cleifion a oedd yn wynebu risg o gwmpo, a'r rheini â chanwla mewnwythiennol. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

At hynny, nid oedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau yn yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd i asesu cleifion iechyd meddwl, er mwyn nodi risgiau i ddiogelwch y cleifion a'r staff.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael digon o gymorth i nodi risgiau posibl i ddiogelwch y cleifion a'r staff ac i gwblhau asesiadau risg lle y bo'n berthnasol.**

Fel y nodwyd yn gynt, roedd cynllun yr adran yn golygu nad oedd modd cadw golwg digonol ar yr ardaloedd aros. Roedd y staff yn dibynnu ar bersonél y dderbynfa i roi gwybod iddynt am unrhyw broblemau neu gleifion sâl, gan fod gallu'r staff clinigol i weld yr ardaloedd aros wedi'i gyfyngu i sgrin CCTV yn yr ardal i gleifion sy'n gallu cerdded.

Drwy gydol ein harolygiad, nid oedd y cleifion yn yr ystafell aros yn cael eu goruchwylio'n ddigonol, a gwnaethom drafod hyn â'r staff clinigol gan argymhell y dylai staff fod yn bresennol i gynnal diogelwch cleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd staff wedi cael eu neilltuo i'r ystafell aros i asesu cleifion er mwyn cynnal llesiant y staff. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd llesiant y staff, gwnaethom awgrymu y dylai'r staff weithio mewn paru, os oes angen, er mwyn helpu i leihau eu pryderon. Mae'n bwysig sicrhau bod cleifion yn cael eu monitro a bod eu diogelwch yn cael ei gynnal.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r ardal aros yn glinigol er mwyn cynnal diogelwch y cleifion.**



Gwnaethom nodi risgiau i ddiogelwch yn yr adran bediatrig. Yn benodol, gwelsom fod y staff wedi gadael fflasg o ddŵr poeth yng nghegin y cleifion, o fewn cyrraedd i'r cleifion, gan beri risg i blant bach. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio at y tîm rheoli, a chafodd y fflasg ei symud i ardal fwy diogel yn ystod ein harolygiad. Gwelsom hefyd fod fformiwla babanod mewn cypyrddau heb eu cloi, gan olygu bod risg o groes-halogi neu y gallai'r cyhoedd ymyrryd ag ef.

Aethom i mewn i ystafell cyfleustodau brwnt (golchfa), a oedd heb ei chloi, gan olygu bod modd i'r cyhoedd fynd i mewn iddi hefyd. Yn yr ystafell hon, roedd sylwedd anhysbys, a allai fod yn gynnyrch glanhau, mewn potel heb ei label, ynghyd â thybiau o dalpiau o gannydd. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio at y tîm uwch-reolwyr, a chafodd y ddwy eitem eu symud a'u rhoi mewn cwpwrdd dan glo.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob darn o gyfarpar COSHH ei storio'n ddiogel mewn cabinet wedi'i gloi, fel y nodir yn rheoliadau COSHH.**

Gwnaethom nodi nad oedd ardal asesu, toiled na chyfleuster ymolchi heb bwyntiau clymu yn yr Adran Achosion Brys bediatrig ac nad oedd asesiad risg wedi cael ei gwblhau ar gyfer hyn.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r asesiadau risg a'r archwiliadau iechyd a diogelwch a gynhelir at ddibenion diogelwch cleifion.**

Gwnaethom edrych ar y broses ar gyfer gwirio'r cyfarpar adfywio yn yr ardal adfywio, yr adran bediatrig a'r adran anafiadau difrifol. Gwelsom nad oedd y cofnodion i ddangos a oedd y cyfarpar adfywio a'r diffibriliwr wedi cael eu gwirio, wedi cael eu cwblhau ar sawl achlysur. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Roedd protocol 'rhyddhau i ymateb i alwad coch' ar waith yn yr adran, sy'n golygu bod lle yn cael ei gadw i drosglwyddo claf o ambiwlans os bydd argyfwng cymunedol sy'n golygu bod angen rhyddhau ambiwlans ar unwaith. Gwelsom nad oedd hyn bob amser yn bosibl, am fod yr adran yn orlawn.

#### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd tîm atal a rheoli heintiau dynodedig yn yr ysbyty, ac roedd nyrs gyswllt atal a rheoli heintiau yn yr Adran Achosion Brys.

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau golchi dwylo rheolaidd yn cael eu cwblhau ac roedd y sgoriau uchel yn dangos cydymffurfiaeth dda o ran hylendid dwylo. Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff am atal a rheoli heintiau a rhoddir adborth o archwiliadau yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo.

Gwelsom fod y staff yn dilyn y polisi gwisg, a bod yr ardaloedd clinigol yn lân ac yn daclus yr olwg ar y cyfan. Roedd gan yr adran ei thîm glanhau domestig ei hun, a oedd yn bresennol yn ystod ein hymweliad.

Roedd ciwbiclau unigol ar gael i ynysu cleifion heintus lle bo angen, gan gynnwys ystafell pwysedd negatif. Mae'r Parth Asesu Anadlol yn yr Uned Asesu Meddygol hefyd yn cynnwys saith gwely i gleifion â chyflyrau anadlol y mae angen eu hynysu, a gaiff eu staffio gan nyrsys yr Adran Achosion Brys. Mae hyn yn lleihau'r risg o heintiau a drosglwyddir drwy'r aer, er enghraifft i'r rheini â COVID-19, y fflw neu heintiau anadlol eraill.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal, ond ar sawl achlysur, gwelsom staff yn gadael ardal â haint heb dynnu cyfarpar diogelu personol. Roedd hyn yn peri risg o gario'r haint i rannau eraill o'r adran.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn defnyddio ac yn tynnu cyfarpar diogelu personol yn briodol er mwyn atal heintiau rhag lledaenu.**

### **Diogelu plant ac oedolion**

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth foddhaol am faterion yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion, trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a galluedd meddyliol.

Gwelsom fod gweithdrefnau diogelu cadarn ar waith ar gyfer atgyfeirio ac uwchgyfeirio pryderon am ddiogelu, a mynd ar eu trywydd. Roedd hyn wedi'i ategu gan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Dangoswyd cofnodion o gydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant ar ddiogelu i ni, a gwelsom fod y rhain yn briodol.

### **Rheoli gwaed**

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer trallwysu gwaed yn ddiogel, sy'n broses dwy nyrs gofrestrdig yn achos y bwrdd iechyd hwn, ac roedd protocol clir ar waith i gefnogi hyn. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau hyfforddiant cymhwysedd ar drallwysu gwaed cyn y gallant roi cynhyrchion gwaed, a bod cofrestr o staff cymwys yn yr adran.

### **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Roedd amrywiaeth o gyfarpar a dyfeisiau meddygol ar gael i'r staff er mwyn rheoli anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar yn ymddangos yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd systemau cadarn ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarpar a dyfeisiau meddygol yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Gwnaethom edrych ar bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd a gwelsom fod ei ddyddiad adolygu wedi mynd heibio.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y polisi rheoli meddyginiaethau yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo mewn modd amserol.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion ar gyfer Cyffuriau a Reolir a gwelsom nad oedd cofnodion yn cael eu cadw fel mater o drefn ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn ymwneud â gwiriadau o'r stoc cyffuriau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Nid oedd y gwiriadau hyn wedi cael eu cynnal yn yr ardal anafiadau difrifol na'r Parth Asesu Anadlol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o stoc cyffuriau a reolir yn cael eu cwblhau ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys.**

Gwelsom fod hen feddyginiaeth yn yr adran bediatrig a'r adran anafiadau difrifol. Gwnaethom dynnu sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn a chafwyd gwared ar y meddyginiaethau ar unwaith. Ni chawsom sicrwydd chwaith fod gwiriadau stoc rheolaidd yn cael eu cynnal i nodi meddyginiaethau y mae eu dyddiadau defnyddio bron â mynd heibio. Gall hyn beri risg i ddiogelwch os cânt eu rhoi i gleifion. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses Sicrwydd ar Unwaith.

Roedd pedwar fferylllydd dynodedig yn gwasanaethu'r adran, ac roedd cymorth ar gael y tu allan i oriau pe bai angen. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau addas ar gyfer cael gafael ar feddyginiaethau nad oeddent mewn stoc.

Gwelsom ddau achlysur pan na chafodd meddyginiaeth a roddwyd ei chofnodi ar y siart presgripsiwn. Roedd hyn yn tynnu sylw at y risg y gallai meddyginiaeth gael ei rhoi ddwywaith ac y gallai'r claf gael gorddos.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn llofnodi'r cofnod meddyginiaeth yn brydlon ar ôl rhoi meddyginiaeth, er mwyn osgoi camgymeriadau o ran meddyginiaeth neu orddos.**

Gwelsom nad oedd y broses ar gyfer gwirio tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn ddigon cadarn i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym i ymateb i negeseuon am dymereddau y tu allan i'r ystod ofynnol. Dywedwyd wrthym fod e-bost yn cael ei anfon at y nyrs â chyfrifoldeb os bydd y tymheredd y tu allan i'r ystod ofynnol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad yw negeseuon bob amser yn cael eu darllen am fod y nyrs â chyfrifoldeb yn darparu cymorth clinigol.

Felly, ni chawsom sicrwydd bod y system yn ddigon cadarn ac effeithlon i sicrhau bod meddyginiaeth y mae angen rheoli ei thymheredd yn cael ei storio'n briodol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses gadarn ar waith i roi gwybod am broblemau o ran tymheredd yr oergell feddyginiaeth fel bod modd mynd i'r afael â nhw'n brydlon.**

Roedd pob un o'r cleifion y gwnaethom eu gwirio yn gwisgo band adnabod. Fodd bynnag, nid oedd cleifion ag alergeddau hysbys bob amser yn gwisgo bandiau alergedd, nac ychwaith fandiau i ddangos risg o gwmpo lle y bo'n berthnasol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bandiau alergedd a bandiau risg o gwmpo yn cael eu rhoi ar gleifion lle y bo'n berthnasol.**

#### **Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd**

Gwelsom nad oedd asesiadau risg mewn perthynas â briwiau pwyso yn cael eu cynnal fel mater o drefn nac mewn modd amserol. Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd asesiad risg cychwynnol bob amser wedi'i gwblhau ac nad oedd ailwiriadau bob amser wedi'u cofnodi. Pan oedd ailwiriadau wedi'u cofnodi, roeddent fel arfer wedi'u cynnal yn hwyrach na'r hyn a argymhellwyd gan y dynodyddion risg. Gwelsom hefyd nad oedd clustogau na matresi lleddfu pwysau yn cael eu defnyddio mewn modd amserol pan oedd sgôr asesiad risg claf yn uchel. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn wynebu risg o ddatblygu briwiau pwyso.

Roedd archwiliadau croen yn cael eu cynnal wrth frysbenno cleifion a oedd yn cyrraedd mewn ambiwlans ac roedd y nyrs frysbenno yn gyfrifol am ailasesu'r claf yn unol â'r asesiad Waterlow. Roedd archwiliadau croen rheolaidd yn cael eu cynnal, ac roedd adroddiadau am ddigwyddiad yn cael eu gwneud ar Datix pe bai gan glaf eisoes friw pwyso, neu pe bai'n datblygu briw pwyso yn ystod ei ofal yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod cleifion hŷn a oedd yn eistedd ar gadeiriau caled yn yr ystafell aros yn cael archwiliadau croen rheolaidd a bod mesurau lleddfu pwysau rheolaidd yn cael eu cymryd. Dywedwyd wrthym fod y nyrsys brysbenno yn aml yn rhy brysur yn rheoli amseroedd brysbenno i allu archwilio cleifion yn yr ystafell aros yn rheolaidd. Gwnaethom nodi o leiaf un claf oedrannus a oedd wedi bod yn yr ystafell aros dros nos ac nad oedd wedi cael archwiliad croen.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod risg cleifion yn yr ystafell aros o ddatblygu briwiau pwyso yn cael ei hasesu a bod cleifion yn cael eu hailwerthuso yn unol â'r asesiad risg.**

#### **Atal cwympiadau**

Nid oedd asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal fel mater o drefn ar gyfer cleifion lle roedd hynny'n briodol. Gwelsom enghraifft lle roedd claf wedi cael ei dderbyn ar ôl cwmpo gartref, ond nad oedd y staff wedi cwblhau asesiad o'i risg o gwmpo. Roedd y claf hwn wedi cwmpo yn yr adran wedi hynny. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn meddu ar ddigon o ddealltwriaeth a gwybodaeth o ran y ffordd gywir o gwblhau dogfennau am gwympiadau. Gwelsom nad oedd camau bob amser wedi cael eu cymryd i weithredu ar asesiadau risg a oedd wedi'u cynnal. Dywedwyd wrthym yn ddiweddarach fod y dogfennau yn newydd ac nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant arnynt ar adeg ein harolygiad.

Dywedwyd wrthym fod y tîm bregusrwydd, y ffisiotherapyddion a'r therapyddion galwedigaethol yn helpu staff yr Adran Achosion Brys i ofalu am gleifion y nodwyd eu bod yn wynebu risg o gwmpo.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o'r staff fentrau'r adran i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys system eFrysbennewydd, fel y nodwyd yn gynt, lle y gall y cleifion hunanfrysbennewydd gan ddefnyddio un o bedair gorsaf ddigidol sydd wedi'u lleoli yn yr ardal aros.

Gwelsom fod llwybrau clinigol ar waith ar gyfer strôc, cnawdnychiant myocardaidd â chodiad segment-ST (STEMI), ac achosion o dorri gwddf y forddwyd, a bod yr ysbyty wedi clustnodi gwelyau i gefnogi'r cleifion brys hyn. Roedd parafeddygon hefyd yn defnyddio llwybrau cyn-ysbyty ar gyfer cyflyrau fasgwlaidd, trawma a phroblemau ar y galon, ac yn gallu dargyfeirio cleifion i ganolfannau rhanbarthol pe bai angen.

### **Maeth a hydradu**

Gallai cleifion gael gafael ar fwyd a diod pan fo angen, ac yn gyffredinol, roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu diwallu yn yr adran. Fodd bynnag, canfu ein harolygiad nad oedd hyn yn gyson yn yr ardal aros. Roedd hyn yn cynnwys diwallu anghenion cleifion a oedd yn aros mewn ambiwlansys. Gwelwyd bod cleifion yr oedd angen help arnynt i fwyta ac yfed yn cael cymorth gan y staff a gwirfoddolwyr y Groes Goch.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar sampl o gynlluniau gofal naw claf a gwelsom eu bod yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Roedd y cofnodion a ysgrifennwyd â llaw yn

ddarllenadwy. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynt yn yr adroddiad, nid oedd asesiadau risg wedi'u cwblhau na'u hadolygu'n rheolaidd.

## Effeithlon

### Effeithlon

Roedd cyfarfodydd ar lefel yr ysbyty yn cael eu cynnal yn ystod y dydd i drafod llif cleifion, lle roedd trosolwg o'r adran yn cael ei drafod, gan gynnwys oedi o ran ambiwlansys, cleifion a oedd yn aros am wely ar ward, a phryderon am aciwtedd. Roedd cyfarfodydd ar lefel y safle cyfan yn cael eu cynnal bob dwy awr yn ystod y dydd. Roedd y nyrs â chyfrifoldeb am yr Adran Achosion Brys fel arfer yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn, ond teimlai'r staff ei bod hi'n anodd rhoi'r camau gweithredu mewn perthynas â llif cleifion a bennwyd yn ystod y cyfarfodydd ar waith weithiau, oherwydd amllder y cyfarfodydd.

Gwelsom lefel briodol o gyfathrebu rhwng staff yr Adran Achosion Brys, a oedd yn cynnwys rhannu gwybodaeth am gleifion yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo shift, a manylion am y camau gweithredu i helpu i wella llif cleifion. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynt, nid oedd y staff bob amser yn sicrhau bod cleifion yn cael gofal neu driniaeth amserol yn seiliedig ar ganlyniadau profion neu symptomau, ac roedd nifer y cleifion yn yr adran yn effeithio ar hyn.

Yn gyffredinol, roedd y staff yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a oedd ar gael, fel cyfarpar meddygol, cyflenwadau, ac amser staff, er budd pennaf y cleifion, ond roedd y gofynion ar yr uned a'r ffaith bod yr adran yn orlawn yn golygu bod hyn yn anodd ei gynnal.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan staff

Rhannodd AGIC holiadur staff er mwyn casglu eu barn a'u profiadau o weithio yn yr Adran Achosion Brys. Cawsom 61 o ymatebion; dywedodd pob ymatebydd ond un eu bod yn gweithio yn yr adran yn barhaus.

Ymatebion negyddol a gafwyd gan y staff yn gyffredinol, ac roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn ymwneud â phroblemau staffio yn yr adran ac effaith llif cleifion ar eu gallu i ofalu am gleifion mewn modd amserol. Dywedodd llai na hanner yr ymatebwyr eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i gleifion, a dywedodd nifer hyd yn oed yn llai y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan yr ysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain, neu eu ffrindiau a'u teulu. Dywedodd ychydig dros hanner y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio (32/58).

Tynnodd sylwadau'r staff sylw at nifer o faterion allweddol yn yr Adran Achosion Brys. Roedd hyn yn cynnwys amgylchedd gorlawn, amseroedd aros hir, a diffyg ardaloedd clinigol priodol, a oedd, gyda'i gilydd, yn peryglu diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal. Nododd y staff hefyd ddiffyg cyfathrebu a chymorth gan yr uwch-reolwyr, a oedd yn arwain at forâl isel a blinder ymhlith y staff.

Er gwaethaf y materion a nodwyd gan y staff, dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gweithio'n galed ac yn ymroddedig, a'u bod yn ceisio darparu'r gofal gorau posibl o dan amgylchiadau anodd.

Roedd y gwelliannau a awgrymwyd gan y staff yn cynnwys rheoli llif cleifion yn well, mwy o staff, a mwy o gymorth gan yr uwch-arweinwyr.

Roedd rhai o'r sylwadau a gawsom yn destun pryder, gan gynnwys y canlynol:

*“Er bod y timau yn yr adran yn gweithio'n galed iawn ac yn rhoi'r pwys mwyaf ar ddiogelwch cleifion, mae'r adran yn aml yn anniogel oherwydd problemau o ran capasiti. Mae'r adran ei hun yn addas at y diben ac yn cynnwys digon o gyfarpar, ond mae'r holl droliau yn llawn o gleifion sy'n aros am wely, sy'n golygu nad yw'r adran yn cael ei defnyddio'n gywir ac nad ydym yn gallu asesu ein cleifion brys mewn amgylchedd addas. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu symud cleifion o'r ardal adfywio, a bod cleifion sy'n glinigol wael yn cael eu rheoli mewn ardaloedd clinigol amhriodol, e.e. yn cael eu brysbennu mewn ambiwlansys. Mae cleifion a ddylai fod yn cael eu hasesu ar y troliau yn gorfod eistedd yn yr ystafell aros. Mae hyn yn golygu eu bod yn anghyfforddus a bod eu gofal yn cael ei oedi gan eu bod yn*

*gorfod yn ôl ac ymlaen o ardaloedd ar gyfer asesiadau, ymchwiliadau a thriniaethau. Felly, er fy mod yn hyderus o ran sgiliau'r staff a lefel gyffredinol y gofal a ddarperir, nid yw'r amgylchedd lle rydym yn gorfod darparu'r gofal hwn yn dderbyniol. Pe bai'r adran achosion brys yn gallu gweithredu felly a bod pob troli ar gael ar gyfer asesiadau a gofal brys, byddai'r cyfleuster yn anhygoel ...”*

*“Mae'r Adran ei hun yn newydd iawn, yn fawr ac wedi'i dylunio'n dda ar y cyfan.*

*Y broblem barhaus yw bod yr adran bob amser yn orlawn a'n bod yn gorfod trin cleifion mewn ardaloedd amhriodol ac anniogel (e.e. yr ystafell ddihalogi, yng nghefn ambiwlans, yn y coridorau). Mae cleifion oedrannus yn aml yn gorfod eistedd am >12 awr yn yr ystafell aros neu ar gadeiriau yn yr Adran ...”*

*“Mae'n rhy fach i ymdopi â nifer y bobl sy'n dod i'r adran. Mae hyn yn rhwystro llif cleifion effeithiol drwy'r adran. Dylai fod adrannau mân anafiadau ar y safle a fyddai'n helpu i atgyfeirio cleifion y mae angen triniaethau amgen arnynt mewn modd amserol, yn hytrach na'u bod wedyn yn gorfod teithio milltiroedd i gael triniaeth fwy priodol a/neu driniaeth yn gynt nag yn yr Adran Achosion Brys ac, i'r gwrthwyneb, yn hytrach na'u bod yn mynd i uned mân anafiadau dim ond i glywed bod yn rhaid iddynt deithio ymhellach i fynd i'r Adran Achosion Brys. Byddai hyn hefyd yn cylchdroi staff clinigol yn fwy effeithiol, gan gynnal eu sgiliau yn hytrach na'u bod yn eu colli am eu bod yn gweithio mewn ardaloedd trin ynysig.”*

**Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sylwadau'r staff a cheisio adborth yn ehangach gan staff yr Adran Achosion Brys ac ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau er budd y cleifion a'r staff.**

## **Arweinyddiaeth**

### **Llywodraethu ac arweinyddiaeth**

Er gwaethaf yr adborth uchod a gafwyd gan staff am yr uwch-reolwyr a'r rheolwyr, yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau arwain a goruchwyllo priodol ar waith yn yr Adran Achosion Brys. Roedd yn amlwg bod tîm arwain yr Adran Achosion Brys yn ceisio gwella'r gwasanaeth, ond roedd y mater allweddol yn ymwneud â'r amgylchedd gorlawn y tu hwnt i'w rheolaeth, o ystyried y problemau ehangach o ran llif cleifion yn yr ysbyty.

Yn ystod yr arolygiad, ymatebodd y staff yn gadarnhaol pan gyflwynwyd meysydd yr oedd angen gweithredu ar unwaith yn eu cylch. Fodd bynnag, o ran nifer o'r



materion a nodwyd, bydd yn cymryd amser a gwaith parhaus i wneud y gwelliannau sydd eu hangen i leihau'r risg i ddiogelwch a llesiant cleifion yn llawn.

Fel y nodwyd yn gynt, gwnaethom gyhoeddi llythyr sicrwydd ar unwaith i'r bwrdd iechyd mewn perthynas â nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella ar unwaith. Mae'n destun pryder bod nifer o'r materion hyn wedi'u nodi yn ystod ein harolygiad blaenorol yn 2022, gan dynnu sylw at wendid ym mhrosesau llywodraethu'r bwrdd iechyd a gallu'r adran i gynnal gwelliannau.

Mae angen i'r bwrdd iechyd wneud mwy o waith i roi sicrwydd iddo'i hun fod y staff yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt wrth wneud gwelliannau. Yn ogystal â hynny, mae angen cryfhau'r prosesau llywodraethu sydd ar waith i fonitro cynnydd camau gweithredu a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal. At hynny, mae angen goruchwyliaeth weithredol gadarn mewn perthynas â chynnydd camau gwella, ac i sicrhau atebolrwydd am gynnal y gwelliannau a wnaed. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses sicrwydd ar unwaith.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod cynnal lefelau staff nyrsio yn llai heriol na'r hyn a welwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol, a bod llai o ddibyniaeth o lawer ar staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu absenoldebau. Dywedwyd wrthym fod cyfraddau cadw staff wedi gwella a bod ffocws ar sicrhau bod staff newydd yn cael eu cefnogi'n briodol. Cawsom gopi o lwybr sefydlu'r staff a phroses Taith Ragoriaeth, y mae staff newydd yn eu dilyn er mwyn sicrhau eu bod yn ennill yr holl gymwyseddau sydd eu hangen i weithio yn yr Adran Achosion Brys.

Er bod yr adran yn brysur iawn drwy gydol yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod y staff yn ymdopi'n dda â'r pwysau a'u bod yn rhoi sylw i anghenion y cleifion ac yn ymateb iddynt ar y cyfan.

Gwelsom gyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal a chawsom gopi o gofnodion cyfarfodydd blaenorol. Roedd prosesau ar waith i rannu'r wybodaeth hon â staff yr Adran Achosion Brys a thimau staff ehangach ym mhob rhan o'r ysbyty. Cawsom gopiau o gylchlythyrau staff a bwletinâu Addysg ac Argymhellion Ar ôl Digwyddiadau o Bwys (ERASE) a gwelsom fod y rhain yn cael eu harddangos yn ardaloedd y staff.

Roedd rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, ac roedd hon wedi'i chefnogi gan nyrs datblygu ymarfer a oedd yn gweithio yn yr Adran Achosion Brys. Roedd y nyrs datblygu ymarfer yn rhagweithiol ac yn gweithio'n effeithiol i nodi anghenion hyfforddiant staff a helpu i nodi meysydd i'w gwella.

Roedd cydymffurfiaeth dda o fwy na 85% mewn perthynas â chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Cawsom gopïau o gofnodion arfarniadau staff a gwelsom fod 67% o'r staff wedi cael arfarniad yn ddiweddar; mae angen cryfhau'r prosesau er mwyn gwella'r ffigur hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau â'i ymdrechion i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol mewn modd amserol.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd. Gwelsom fod codau QR yn cael eu harddangos yn ardaloedd y staff a'r cleifion i'w hannog i roi adborth.

Roedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, ac roedd hon yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Cawsom wybodaeth am gwynion cyfredol a chamau a gymerwyd i'w datrys.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd system cofnodion a rheoli cleifion electronig ar waith yn yr Adran Achosion Brys i gael gafael ar gofnodion meddyg teulu cleifion, trefnu ymchwiliadau fel profion gwaed a radioleg, a chael gafael ar ganlyniadau ymchwiliadau. Roedd y staff, ar y cyfan, yn gadarnhaol am y system.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Mae'r gwasanaeth ar Lefel 3 o [drefniadau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru](#) ar hyn o bryd, ac esboniodd y staff eu ffocws ar wella'r amseroedd aros o 12 awr yn yr adran, ac oriau a gollwyd ambiwlansys am eu bod wedi'u dal y tu allan i'r Adran Achosion Brys. At hynny, disgrifiodd y staff y cyfarfodydd wythnosol a gynhelir gan y tîm gweithredol i drafod data ar amseroedd aros cleifion a thargedau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â mynd i'r afael â llif cleifion drwy'r adran a'r ysbyty yn gyffredinol.

Gwelsom fod prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer archwilio, ac ar gyfer adrodd ar faterion a'u huwchgyfeirio yn yr Adran Achosion Brys, a oedd, gyda'i gilydd, yn llywio gwelliannau o ran ansawdd.

Dywedwyd wrthym fod cyllid wedi'i gytuno ar gyfer chwe swydd meddyg ymgynghorol yn yr Adran Achosion Brys a bod model newydd i asesu a thrin cleifion yn gyflym yn yr arfaeth. Nod hyn yw cynyddu llif cleifion drwy'r adran, gyda meddygon ar lefel uwch yn adolygu cleifion ac yn rhyddhau cleifion fel y bo'n briodol.

Dywedwyd wrthym y bydd y gwaith adnewyddu yn cael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2025 ac y bydd yr ystafell aros a'r ystafell frysbennu yn cael eu troi'n ardaloedd trin ac asesu clinigol, baeau ac ardal aros.

Gwelsom dystiolaeth o fentrau llesiant staff ac esboniodd yr arweinwyr fod y gwasanaeth wedi canolbwyntio ar wella darpariaethau ar gyfer llesiant staff ers i drefniadau monitro Lefel 3 gael eu pennu ar gyfer y gwasanaeth.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Roedd enghreifftiau o waith partneriaeth da rhwng gwahanol ddisgyblaethau staff a phroffesiynau o adrannau eraill, gan gynnwys fferylliaeth, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Fflasg o ddŵr poeth yn yr ardal bediatrig o fewn cyrraedd y plant.	Risgiau sgaldio a llosgi.	Uwchgyfeirio at y nyrs â chyfrifoldeb.	Cafodd y fflasg ei symud i fan diogel lle na all plant gael gafael arni.

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor

**Dyddiad yr arolygiad:** 02 - 04 Hydref 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau 1.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom nad oedd asesiadau risg mewn perthynas â chwympiadau a Fflebitis Trwytho Gweledol (VIP) wedi cael eu cynnal mewn modd amserol.

- Gwelsom fod rhai cleifion wedi bod yn yr adran am fwy na 24 awr a'u bod yn wynebu risg o gwmpo, ond nad oedd asesiad risg mewn perthynas â chwympiadau wedi cael ei gwblhau.
- Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd asesiad risg mewn perthynas â VIP wedi cael ei gwblhau.

Mae asesiadau risg anghyflawn yn peri risg i ddiogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau ar waith i wneud yn siŵr bod asesiadau risg mewn perthynas â chwympiadau a Fflebitis Trwytho Gweledol (VIP) yn cael eu cwblhau'n brydlon, er mwyn cynnal diogelwch cleifion.	Gofal Diogel a Gofal Amserol	1. Mae negeseuon wedi'u hanfon at y staff drwy grwpiau WhatsApp yr Adran Achosion Brys a'r adran bediatrig i'w hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gwblhau asesiadau risg mewn modd amserol, a phwysigrwydd gwneud hynny.	Uwch-nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus

2. Rhannwyd Newyddion Nyrsio Sicrwydd Ar Unwaith AGIC â'r staff	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
3. Mae sesiynau sefydlu a diwrnodau addysgiadol staff yr Adran Achosion Brys yn pwysleisio pwysigrwydd dogfennau nyrsio cywir. Mae'r sesiynau sefydlu corfforaethol hefyd yn ymdrin â hyn.	Addysgwyr Ymarfer ac Uwch-nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus  Y sesiwn sefydlu gorfforaethol nesaf - Tachwedd 2024
4. Archwiliadau un claf-un dydd gan sicrhau bod pob asesiad risg a bwndel gofal canwla yn cael eu cwblhau'n ddyddiol gan un o reolwyr yr Adran Achosion Brys. Caiff yr holl wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff nyrsio ar y pryd. Caiff pryderon am ymarfer nyrsys unigol eu rheoli yn unol â pholisïau'r Bwrdd Iechyd a'u huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio.	Tîm Rheoli'r Adran Achosion Brys yn ddyddiol / Uwch-nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus
5. Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol ar waith. Caiff yr holl wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff nyrsio ar y pryd. Caiff pryderon am ymarfer nyrsys unigol eu rheoli yn unol â pholisïau'r Bwrdd Iechyd a'u	Tîm Rheoli'r Adran Achosion Brys yn ddyddiol / Uwch-nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus

	huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio.		
6.	Caiff yr holl wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff nyrsio ar y pryd. Caiff unrhyw bryderon am ymarfer nyrsys unigol eu rheoli yn unol â pholisïau'r Bwrdd Iechyd a'u huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio.	Tîm Rheoli'r Adran Achosion Brys yn ddyddiol / Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Ar unwaith ac yn barhaus
7.	Monitro cydymffurfiaeth mewn perthynas â MFRA drwy archwiliadau un claf-un dydd ac Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol. Caiff gwelliannau a gwersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff nyrsio ar y pryd. Caiff pryderon am ymarfer nyrsys unigol eu rheoli yn unol â pholisïau'r Bwrdd Iechyd a'u huwchgyfeirio at yr uwch-dîm nyrsio.	Uwch-nyrs / Tîm Rheoli'r Adran Achosion Brys / Arweinwyr Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Ar unwaith ac yn barhaus
8.	Bydd yr Uwch-nyrs a Phennaeth Nyrsio yn cynnal hapwiriadau wythnosol o gofnodion cleifion yn ogystal ag Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol misol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Wythnosol / Misol
9.	Mae poster cwympiadau'r Adran Achosion Brys wedi'i rannu ar draws yr Is-adran ac wedi'i arddangos yn yr Adran Achosion	Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion / Prif Nyrs yr Adran Achosion Brys sy'n	Ar unwaith ac yn barhaus



Brys er mwyn codi ymwybyddiaeth o ymyriadau asesiadau risg.	gyfrifol am waith gwella mewn perthynas â chwypniadau.	
10. Mae bwletin ERASE ar fwndeli gofal canwla wedi'i ddatblygu a'i rannu drwy e-bost â thîm yr Adran Achosion Brys	Uwch Nyrs / Tîm Ansawdd a Diogelwch Cleifion / Cymorth Gweinyddol yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith
11. Mae pob bwletin ERASE wedi'i argraffu a'i arddangos yn yr Adran Achosion Brys	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau
12. Caiff cynllun gwella a diweddariadau ar gamau gweithredu eu cyflwyno yng nghyfarfod Tîm Uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Rheoli Is-adrannol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Tîm yr Uwch-reolwyr yn fisol / Tîm Rheoli Is-adrannol bob chwarter
13. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yng nghyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adrannol â'r Prif Swyddog Gweithredu	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Bob chwarter
14. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y cyflwyniad canol blwyddyn /	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Canol Blwyddyn (Tachwedd 2024) / Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2025)

			diwedd blwyddyn gyda'r swyddogion gweithredol		
			15. Rhoddir diweddariadau i Fforwm Gwella Dysgu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso	Ionawr 2025
			16. Bydd yr Adran Achosion Brys yn gweithio tuag at achrediad uned fel rhan o broses achredu wardiau/timau y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrso	Mawrth 2025
			17. Caiff y cynllun gwella ei fonitro'n rheolaidd drwy Bwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrso	Bob chwarter

Canfyddiadau 2.

Nid yw AGIC wedi cael sicrwydd bod y trefniadau ar gyfer rheoli a rhoi meddyginiaethau yn ddigon cadarn i gynnal diogelwch cleifion.

- Gwelsom enghreifftiau o hen feddyginiaeth yn yr adran achosion brys bediatrig ac yn yr adran adfywio.
- Gwnaethom wirio'r oergelloedd meddyginiaeth ym mhob rhan o'r adran a gwelsom nad oedd gwiriadau tymheredd dyddiol wedi cael eu cofnodi ar sawl achlysur.
- Gwelsom enghreifftiau ar y gofrestr cyffuriau a reolir lle nad oedd gwiriadau stoc a meddyginiaeth wedi cael eu cwblhau'n ddyddiol, yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>2. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod stociau meddyginiaethau yn cael eu gwirio, a bod unrhyw eitemau y mae eu dyddiad 'defnyddio' wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu'n briodol.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o dymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael eu cynnal yn rheolaidd.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff stociau cyffuriau a reolir eu gwirio a'u cofnodi'n ddyddiol.</p>	<p>Gofal Diogel ac Effeithiol</p>	<p>18. Mae negeseuon wedi'u hanfon at y staff drwy grwpiau WhatsApp yr Adran Achosion Brys a'r adran bediatrig i'w atgoffa o'u cyfrifoldeb i gynnal gwiriadau dyddiol, gan gynnwys adolygu dyddiadau dod i ben yr holl gynhyrchion, a phwysigrwydd gwneud hynny.</p>	<p>Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
		<p>19. Rhannwyd Newyddion Nyrsio Sicrwydd Ar Unwaith AGIC â'r staff</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
		<p>20. Mae adroddiad dyddiol ar dymheredd yr oergell Omnicell eisoes ar waith ar gyfer yr Ardal Anafiadau Difrifol a'r Ardal Adfywio - caiff ei anfon</p>	<p>Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys / Uwch-nyrs</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>

<p>drwy e-bost at Uwch-nyrs a thîm Band 7 yr Adran Achosion Brys yn ddyddiol. Mae hyn bellach ar waith yn yr adran bediatrig ac yn cael ei fonitro.</p>		
<p>21. Atgyfnerthu 'rhestr wirio diogelwch yr Adran Achosion Brys', sy'n sicrhau bod y Nyrs â Chyfrifoldeb yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn ddyddiol. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gynnal gwiriadau priodol o gyffuriau a reolir yn unol â pholisi BIPAB. Caiff hyn ei wirio'n ddyddiol gan un o reolwyr yr Adran Achosion Brys.</p>	<p>Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys / Uwch-nyrs</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
<p>22. Mae'r adran bediatrig wedi rhoi rhestr wirio newydd ar waith ar gyfer dyrannu er mwyn monitro'r broses o gwblhau rhestr wirio'r troli adfywio a sicrhau bod yr holl gyffuriau yn gyfredol.</p>	<p>Arweinydd Pediatrig Band 7 yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Hydref 2024</p>
<p>23. Mae bwletin ERASE i godi ymwybyddiaeth o wiriadau o gyffuriau a reolir a sut i'w storio a'u gwaredu wrthi'n cael ei ddatblygu ar y cyd â chydweithwyr ehangach yn yr Is-adran a'r Fferyllfa.</p>	<p>Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion</p>	<p>Rhagfyr 2024</p>

24. Bydd yr Uwch-nyrs a Phennaeth Nyrsio yn cynnal archwiliadau misol o'r holl restrau gwirio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Bob mis
25. Mae pob bwletin ERASE wedi'i argraffu a'i arddangos yn yr Adran Achosion Brys	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau
26. Caiff cynllun gwella a diweddariadau ar gamau gweithredu eu cyflwyno yng nghyfarfod Tîm Uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Rheoli Is-adrannol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Tîm yr Uwch-reolwyr yn fisol / Tîm Rheoli Is-adrannol bob chwarter
27. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yng nghyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adrannol â'r Prif Swyddog Gweithredu	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Bob chwarter
28. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y cyflwyniad canol blwyddyn / diwedd blwyddyn gyda'r swyddogion gweithredol	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Canol Blwyddyn (Tachwedd 2024) / Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2025)
29. Rhoddir diweddariadau i Fforwm Gwella Dysgu Ansawdd	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025

			a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd	
			30. Bydd yr Adran Achosion Brys yn gweithio tuag at achrediad uned fel rhan o broses achredu wardiau/timau y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio
			31. Caiff y cynllun gwella ei fonitro'n rheolaidd drwy Bwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio
				Mawrth 2025
				Bob chwarter

### Canfyddiadau 3.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod yr holl risgiau i iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli'r briodol.

- Gwnaethom edrych ar y broses o wirio'r cyfarpar adfywio a'r cofnodion ar gyfer yr adran adfywio, yr adran achosion brys bediatrig a'r adran anafiadau difrifol, a gwelsom nad oedd gwiriadau o'r troli cyfarpar adfywio a'r diffibriliwr wedi cael eu cofnodi ar sawl achlysur.
- Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod y cyfarpar adfywio yn cael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau bod yr holl eitemau gofynnol ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio mewn argyfwng.

Mae hyn yn peri risg i ddiogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
3. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o'r cyfarpar adfywio yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	Gofal Diogel ac Effeithiol	32. Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb i gynnal gwiriadau dyddiol o'r troliau adfywio, a phwysigrwydd gwneud hynny. Bydd un o reolwyr yr Adran Achosion Brys yn cadarnhau bob bore fod yr holl wiriadau wedi'u cwblhau. Dylai unrhyw bryderon am wiriadau cyson gael eu huwchgyfeirio	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith ac yn barhaus

		at yr uwch-nyrs a dylid rhoi camau priodol ar waith.		
		33. Caiff gwiriadau misol eu cynnal o'r trolïau adfywio, yn unol â phrotocol BIPAB, gan gynnwys gwirio a yw seliau wedi torri a gwirio dyddiadau dod i ben cyffuriau. Bydd un o reolwyr yr Adran Achosion Brys yn cadarnhau ar ddiwrnod cyntaf bob mis fod yr holl wiriadau wedi'u cwblhau. Dylai unrhyw bryderon am wiriadau cyson gael eu huwchgyfeirio at yr uwch-nyrs a dylid rhoi camau priodol ar waith.	Uwch-nyrs / Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith ac yn barhaus
		34. Atgyfnerthu 'rhestr wirio diogelwch yr Adran Achosion Brys', sy'n sicrhau bod y Nyrs â Chyfrifoldeb yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn ddyddiol. Mae hyn hefyd yn cynnwys y gofyniad i gynnal gwiriadau priodol o gyffuriau a reolir yn unol â pholisi BIPAB. Caiff hyn ei wirio'n ddyddiol gan un o reolwyr yr Adran Achosion Brys	Uwch-nyrs / Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith ac yn barhaus
		35. Mae hysbysiad mewnol am bwysigrwydd cynnal gwiriadau o'r trolïau adfywio wedi'i ychwanegu at garwsél mewnwyd y Bwrdd Iechyd.	Uwch-nyrs ar gyfer Gwasanaethau Adfywio	Wedi'i gwblhau
		36. Rhannwyd Newyddion Nyrsio Sicrwydd Ar Unwaith AGIC â'r staff	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
		37. Caiff cynllun gwella a diweddariadau ar gamau gweithredu eu cyflwyno yng nghyfarfod Tîm Uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Rheoli Is-adrannol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Tîm yr Uwch-reolwyr yn fisol / Tîm Rheoli Is-adrannol bob chwarter

		38. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yng nghyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adran â'r Prif Swyddog Gweithredu	Pennaeth Nyrso / Nyrso Is-adrannol	Bob chwarter
		39. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y cyflwyniad canol blwyddyn / diwedd blwyddyn gyda'r swyddogion gweithredol	Pennaeth Nyrso / Nyrso Is-adrannol	Canol Blwyddyn (Tachwedd 2024) / Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2025)
		40. Rhoddir diweddariadau i Fforwm Gwella Dysgu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrso	Ionawr 2025
		41. Bydd yr Adran Achosion Brys yn gweithio tuag at achrediad uned fel rhan o broses achredu wardiau/timau y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrso	Mawrth 2025

#### Canfyddiadau 4.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod pob agwedd ar ofal yn cael ei chyflawni mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

- Gwnaethom edrych ar nodiadau gofal un claf a gwelsom nad oedd camau wedi'u cymryd mewn modd amserol i weithredu ar ganlyniadau ymchwiliadau.
- Gwelsom enghraifft lle roedd cyflwr claf wedi gwaethygu yn sgil yr oedi cyn dechrau triniaeth briodol.
- Ni chawsom sicrwydd bod y staff yn monitro'r claf yn briodol mewn modd amserol.



Gall hyn gynyddu'r risg i ddiogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
4. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod profion gwaed ac ymchwiliadau yn cael eu hadolygu a bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon er mwyn osgoi oedi cyn dechrau triniaeth angenrheidiol.	Gofal Diogel ac Effeithiol	42. Mae gwaith yn mynd rhagddo ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd i wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gofal mewn amgylcheddau priodol.	Pennaeth Gweithrediadau	Ar unwaith ac yn barhaus
		43. Caiff unrhyw oedi i driniaeth oherwydd llif y system eu huwchyfeirio at y Meddyg Brys â Chyfrifoldeb a'r Tîm Gweithrediadau i gefnogi'r llif	Meddyg Brys â Chyfrifoldeb / Nyrs â Chyfrifoldeb yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith ac yn barhaus
		44. Caiff unrhyw bryderon am ofal a thriniaeth cleifion eu huwchyfeirio ar y pryd at yr arbenigedd a'r clinigydd ar y lefel uchaf â chyfrifoldeb, a lle bo angen, caiff cofnod ei gwblhau ar Datix a chaiff camau priodol eu cymryd.	Meddyg Brys â Chyfrifoldeb / Nyrs â Chyfrifoldeb yr Adran Achosion Brys	Ar unwaith ac yn barhaus
		45. Caiff pob claf a atgyfeiriwyd yn yr Adran Achosion Brys ei adolygu'n ddyddiol a rhoddir cynllun meddygol clir ar waith a chaiff adolygiadau priodol eu cynnal.	Cyfarwyddwyr Clinigol ar gyfer Arbenigeddau	Ar unwaith ac yn barhaus
		46. Os na fydd cynlluniau meddygol neu ofal nyrsio/asesiadau wedi cael eu rhoi ar waith ar adeg trosglwyddo,	Uwch-nyrs / Cyfarwyddwr Clinigol	Ar unwaith ac yn barhaus

		dylai'r rhesymau dros hyn gael eu nodi a lle bo angen, dylid cwblhau cofnod ar Datrix gan nodi ymchwiliadau priodol a chanlyniadau.		
		47. Mae sesiynau sefydlu a diwrnodau addysgiadol y staff yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod pryderon clinigol yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd amserol fel rhan o wahanol senarios a sesiynau clinigol.	Uwch-nyrs / Addysgwyr Ymarfer	Ar unwaith ac yn barhaus
		48. Mae bwletin ERASE ar bwysigrwydd gwirio profion gwaed wedi'i ddatblygu a chaiff ei rannu â thimau'r Adran Achosion Brys a thimau Is-adrannol ehangach.	Arweinydd Ansawdd a Diogelwch Cleifion	Rhagfyr 2024 ar gyfer yr Adran Achosion Brys
		49. Mae pob bwletin ERASE wedi'i argraffu a'i arddangos yn yr Adran Achosion Brys	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau
		50. Rhannwyd Newyddion Nyrsio Sicrwydd Ar Unwaith AGIC â'r staff	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
		51. Caiff cynllun gwella a diweddariadau ar gamau gweithredu eu cyflwyno yng nghyfarfod Tîm Uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Rheoli Is-adrannol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Tîm yr Uwch-reolwyr yn fisol / Tîm Rheoli Is-adrannol bob chwarter
		52. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yng nghyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adrannol â'r Prif Swyddog Gweithredu	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Bob chwarter

		53. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y cyflwyniad canol blwyddyn / diwedd blwyddyn gyda'r swyddogion gweithredol	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Canol Blwyddyn (Tachwedd 2024) / Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2025)
		54. Rhoddir diweddariadau i Fforwm Gwella Dysgu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Ionawr 2025
		55. Bydd yr Adran Achosion Brys yn gweithio tuag at achrediad uned fel rhan o broses achredu wardiau/timau y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Mawrth 2025
		56. Caiff y cynllun gwella ei fonitro'n rheolaidd drwy Bwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Bob chwarter

#### Canfyddiadau 5.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod y cyflenwad o gyfarpar meddygol untro yn cael ei wirio. Roedd hyn yn peri risg i ddiogelwch y cleifion.

- Gwelsom enghreifftiau lle roedd hen gyfarpar meddygol untro yn yr adran achosion brys bediatrig ac yn yr adran adfywio, megis amwsg anymataliaeth allanol i ddynion a rhywfaint o gyfarpar o'r pecyn 'Can't Intubate, Can't Oxygenate (CICO)' a oedd yn cynnwys tiwb endotracheaidd geneuol â chÿff (COETT), chwistrell 5ml a chysylltydd Rapi-fit.

Gallai'r materion hyn beri risg i ddiogelwch cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>5. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyflenwad o gyfarpar meddygol untro yn cael ei fonitro a bod unrhyw eitemau y mae eu dyddiad 'defnyddio' wedi mynd heibio yn cael eu gwaredu'n briodol.</p>	<p>Gofal Diogel ac Effeithiol</p>	<p>57. Cafodd y bag parod ei waredu yn ystod arolygiad AGIC.</p>	<p>Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
		<p>58. Bydd pob aelod o'r staff yn gwirio dyddiadau dod i ben cyfarpar cyn ei ddefnyddio. Caiff hyn ei gynnwys yn Newyddion Nyrsio mis Tachwedd.</p>	<p>Uwch-nyrs</p>	<p>Tachwedd 2024</p>
		<p>59. Mae nifer o adolygiadau o'r adran wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr holl gynhyrchion yn gyfredol / bod unrhyw gyfarpar dros ben yn cael ei waredu ar unwaith.</p>	<p>Uwch-nyrs / Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
		<p>60. Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb i gynnal gwiriadau dyddiol o'r trolïau adfywio, a phwysigrwydd gwneud hynny. Bydd un o reolwyr yr Adran Achosion Brys yn cadarnhau bob bore fod yr holl wiriadau wedi'u cwblhau. Dylai unrhyw bryderon am wiriadau cyson gael eu huwchgyfeirio at yr uwch-nyrs a dylid rhoi camau priodol ar waith.</p>	<p>Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys / Uwch-nyrs</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>
		<p>61. Caiff gwiriadau misol eu cynnal o'r trolïau adfywio, yn unol â phrotocol BIPAB, gan gynnwys gwirio a yw selïau wedi torri a gwirio dyddiadau dod i ben cyffuriau. Bydd un o reolwyr yr Adran Achosion Brys yn cadarnhau ar ddiwrnod cyntaf bob mis fod yr holl wiriadau wedi'u cwblhau. Dylai unrhyw bryderon am wiriadau cyson</p>	<p>Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys / Uwch-nyrs</p>	<p>Ar unwaith ac yn barhaus</p>

		gael eu huwchgyfeirio at yr uwch-nyrs a dylid rhoi camau priodol ar waith.		
		62. Atgyfnerthu 'rhestr wirio diogelwch yr Adran Achosion Brys', sy'n sicrhau bod y Nyrs â Chyfrifoldeb yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn ddyddiol. Mae hyn hefyd yn cynnwys y gofyniad i gynnal gwiriadau priodol o gyffuriau a reolir yn unol â pholisi BIPAB. Caiff hyn ei wirio'n ddyddiol gan un o reolwyr yr Adran Achosion Brys	Tîm Band 7 yr Adran Achosion Brys / Uwch-nyrs	Ar unwaith ac yn barhaus
		63. Bydd yr Uwch-nyrs a Phennaeth Nyrsio yn cynnal archwiliadau misol o'r holl restrau gwirio er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio	Bob mis
		64. Rhannwyd Newyddion Nyrsio Sicrwydd Ar Unwaith AGIC â'r staff	Uwch-nyrs	Wedi'i gwblhau
		65. Caiff cynllun gwella a diweddariadau ar gamau gweithredu eu cyflwyno yng nghyfarfod Tîm Uwch-reolwyr yr Adran Achosion Brys a'r Tîm Rheoli Is-adrannol.	Uwch-nyrs / Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Tîm yr Uwch-reolwyr yn fisol / Tîm Rheoli Is-adrannol bob chwarter
		66. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yng nghyfarfodydd Sicrwydd yr Is-adrannol â'r Prif Swyddog Gweithredu	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Bob chwarter
		67. Bydd diweddariadau / sicrwydd ynghylch y cynllun gwella yn rhan o'r agenda Ansawdd a Diogelwch Cleifion yn y cyflwyniad canol blwyddyn / diwedd blwyddyn gyda'r swyddogion gweithredol	Pennaeth Nyrsio / Nyrs Is-adrannol	Canol Blwyddyn (Tachwedd 2024) / Diwedd Blwyddyn (Mawrth 2025)

		68. Rhoddir diweddariadau i Fforwm Gwella Dysgu Ansawdd a Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Ionawr 2025
		69. Bydd yr Adran Achosion Brys yn gweithio tuag at achrediad uned fel rhan o broses achredu wardiau/timau y Bwrdd Iechyd.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Mawrth 2025
		70. Caiff y cynllun gwella ei fonitro'n rheolaidd drwy Bwyllgor Canlyniadau Ansawdd a Diogelwch Cleifion.	Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio	Bob chwarter

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):** Chris Morgan

**Teitl swydd:** Nyrs Is-adrannol - Gofal Brys

**Dyddiad:** 20 Tachwedd 2024

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Adran Achosion Brys Ysbyty Athrofaol y Faenor

Dyddiad yr arolygiad: 2 - 4 Hydref 2024

